# y DINESYDD

GORFFENNAF/AWST 1995 — "LLAIS Y GYMUNED" — RHIF 210

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH


# Ffarwelio â phrifathro cyntaf Glantaf

**GAN B. D. HARRIES**

Yn rhifyn Ebrill trafodwyd y bwriad o sefydlu ail ysgol uwchradd Gymraeg yn y sir a manteisiwyd ar y cyfle i dalu teyrnged i'r rheini a frwydrodd dros addysg Gymraeg. Er hynny, fe fyddai pob un ohonynt, mae'n siwr, yn barod i gydnabod cyfraniad enfawr Mr Malcolm Thomas, sydd ar fin ymddeol, i'r llwyddiant hwn. Cyfeiriwyd yn Ebrill at lwyddiant Glantaf mewn amrywiol feysydd a chyfeiriwyd at gyfraniad llawer i'r llwyddiant hwn. Mae'n siwr y byddai pob un yn fwy na pharod i ganmol y rhan allweddol a gymerwyd gan y prifathro o'r cychwyn cyntaf.



Llun: Robin Griffith

### *Dechrau'r daith*

Pan dderbyniodd ym 1978 wahoddiad yr Awdurdod Addysg i fod yn Bennaeth yng Nghlantaf roedd y rhai a oedd yn ei adnabod ac yn gwybod am ei yrfa ddisglair ym myd addysg yn sicr y byddai'r awenau yn nwylo diogel addysgwr blaengar. Ar ôl gyrfa academaidd lwyddiannus yn Ysgol Ramadeg Rhydaman a Choleg y Brifysgol, Abertawe (lle bu dylanwad Glanmor Williams yn gryf arno) daeth i'r de-ddwyrain ym 1959 ac yn ystod y blynyddoedd dilynol bu'n bennaeth yr Adran Hanes yn ysgol yr Eglwys Newydd, yn ddirprwy brifathro yn ysgol St. Cyres ac yn brifathro ysgol Cathays. Amlygodd ei hunan yn athro egniol ac ysbrydoledig, yn weinyddwr galluog ac yn arweinydd doeth a chydymdeimladol.

Felly, gŵr profiadol a ddaeth i arwain Glantaf, un a chanddo syniadau goleuedig ynglŷn ag addysg ac un a oedd yn hen gyfarwydd â delio â'r awdurdod addysg lleol ac a chyrff eraill ym myd addysg.

Nid rhyfedd felly i'r ysgol lwyddo. Tyfodd o 99 disgybl y bore cyntaf i 1270 heddiw, bu'r canlyniadau arholiad yn glodwiw drwy'r amser, roedd adroddiad yr Arolygwyr yn ddiweddar yn un canmoliaethus, a daeth cryn glod i'r ysgol mewn llu o weithgareddau allgyrsio. Ni chyfyngwyd y sylw i'r galluog a'r talentog yn unig; cafodd plant ag anghenion arbennig sylw dyladwy ac erbyn hyn, er cryn foddhad i'r prifathro, mae yn yr ysgol ddwy uned effeithiol ar gyfer plant a phroblemau dwys.

Bu'r ysgol o'r cychwyn yn gyfoes ei hagwedd ac yn anturus ac arloesol ei dulliau, yn ysgol a ddiogelai ein traddodiadau gorau fel cenedl ac yn un a geisiodd greu o'i mewn gymdeithas ag iddi ymdeimlad o'r gwerthoedd moesol ac ysbrydol. Gwnaed ymdrech deg i gydfyw yn y gymuned, un oedd wedi'i hamddifadu o'i hysgol ei hun.

### *Dyddiau anodd*

Digwyddodd hyn yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf anodd yn hanes addysg. Bu cwtogi ar gyllid yn gyffredinol ac roedd y sir, yn wahanol i siroedd eraill, rhaid dweud,

parhad ar dud. 2

## TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Newyddion | 3-6 |
| Ysgolion | 7 |
| Newyddion o Ganolfan yr Urdd | 8 |
| Dysgu Cymraeg | 9 |
| Enillwyr yr Eisteddfod | 12-13 |
| Cofio Lloyd | 15 |
| Croesair | 16 |

# y DINESYDD

Gorffenaf/Awst, 1995. Rhif 210.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyluniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan CIT Printing Services, Hwlffordd.

## Y TÎM GOLYGYDDOL

Anfonwch unrhyw ddeunydd at y tîm golygyddol fel a ganlyn:

**Mr Robin Griffith**, 26 Parc y Coed, Creigiau, Caerdydd (890133): lluniau

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562): newyddion byd addysg

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): newyddion yr Eblwys Newydd

**Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282): cyffredinol

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): newyddion am bopeth

**Mr Tom Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540): chwaraeon

**Y Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811): newyddion yr eglwysi

## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, byddwch gystal â chysylltu â **Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.**

## DIWEDD Y GAN...

Gwyddoch bod y Dinesydd yn dibynnu ar ein hysbyswyr, sy'n haeddu eich cefnogaeth, yn ogystal ag ar grantiau ac arian gan gymdeithasau ac unigolion.

Os teimlwch ichi hoffi darllen y rhifynnau newydd diweddaraf, beth am ddangos eich gwerthfawrogiad trwy anfon cyfraniad at ein trysorydd:
**Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, Pen-twyn, Radur, Caerdydd CF4 8RE**

Cydnabyddir pob rhodd i'w godw ar wyneb y dwr ar dudalennau'r Dinesydd


# Ffarwelio â phrifathro cyntaf Glantaf

☛ *parhad o dud. 1*

yn araf yn sylweddoli beth oedd oblygiadau ariannol addysg ddwyieithog. Da yw clywed fod gwelliant pendant yn agwedd y gwleidyddion a'r gweinyddwyr lleol erbyn hyn. Drwy'r cyfnod bu cryn ymestyn yn ystod gallu'r disgyblion a newid enfawr yn natur ieithyddol eu cefndir; mae canran y disgyblion sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg wedi codi'n gyson o tua 35% ar y dechrau i tua 85%. Llwyddwyd i sicrhau bod y cyhoedd ac ymwelwyr yn derbyn yr ysgol fel sefydliad cwbl normal, ac nid yn "rhyfeddod prin".

### Arwain trwy esiampl

Arweiniodd Malcolm Thomas drwy roi esiampl o ran diwydrwydd, asbri ac argyhoeddiad. Rhoes anogaeth ac ysbrydoliaeth i'r athrawon a'r disgyblion gan eu hargyhoeddi nad rhywbeth cul yw addysg. Gwyddai mai trwy osod safonau uchel i ymgyrraedd atynt yr enillai'r ysgol barch a hunan-barch. Ni chollodd ddiwrnod oherwydd afiechyd a gweithiodd yn ddiflino i gyrraedd pob nod, gan fynd laweroedd o weithiau gryn dipyn pellach na'r filltir gyntaf.

Mae'n awyddus i dalu gwrogaeth haeddiannol i'w staff a bu'n gefnogol iawn iddynt. Roedd bob amser yn gwerthfawrogi eu hymdrechion ac yn ymfalchio yn eu gorchestion. Gwyddai pob un ohonyn nhw fod cymorth y prifathro yn un hawdd ei gael bob amser. Er mai mewn dull cwbl broffesiynol yr ymdriniai a phob problem, roedd dogn helaeth o oddefgarwch, cydymdeimlad â ffaeleddau dynol a hiwmor iachus yn nodweddu ei gyfraniad ef i'r ymdriniaeth yn ddieithriad.

Mae'r un mor awyddus i bwysleisio'r gefnogaeth a gafodd gan ei briod ac mae hefyd wedi mynegi ei werthfawrogiad diffuant (un o'i hoff ymadroddion) o gefnogaeth yr ysgolion cynradd Cymraeg a'r rhieni.

Wrth wraidd y cyfan roedd ei barch at bobl ifanc. Cyfathrebai'n naturiol â hwy a theimlent hwythau fod eu gyrfa a'u bywyd yn gyffredinol o ddiddordeb iddo. Medrai gyd-lawenhau â hwy yn eu llwyddiannau a chydymdeimlo â hwy mewn pob cyfyngder, personol a theuluol.

### Dymuniadau da

Er gwaethaf y prysurdeb cyson mae ei yrfa wedi rhoi boddhad iddo ac mae'n teimlo braidd yn chwithig wrth ganu'n iach â Glantaf. Mae'n teimlo bod angen egwyl arno ond gwyddom na fydd yn segur yn hir. Bydd Undeb Rygbi Cymru'n dal i gael ei wasanaeth, yn enwedig yn y dasg o hybu dyfarnwyr ifanc ac ni fydd yn llaesu dwylo yn Ebeneser. Mae am roi mwy o sylw i'w deulu, yn enwedig i'w briod a'u hwyr bach. Ac ni fydd ei ddiddordeb ym myd addysg yn diflannu.

Wrth ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad, carem ar ran ein darllenwyr a phawb sy'n cymryd diddordeb mewn addysg Gymraeg ddiolch iddo am ei lafur o fewn a thu allan i furiau Glantaf. **D**


EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

BWRDD CENHADAETH AC UNDEB

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · THE PRESBYTERIAN CHURCH OF WALES · GOLEUNI Y BYWYD

Gwahoddwn geisiadau am swydd ran amser o Gaplan ar gyfer gwasanaethu Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd a Sefydliad Addysg Uwch Caerdydd. Mae hon yn swydd llawn her a chyfle i weithio mewn tîm o gaplaniaid ond i ganolbwyntio ar wasanaethu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir manylion pellach oddi wrth:
Ysgrifennydd Bwrdd Cenhadaeth ac Undeb
53 Heol Richmond, Caerdydd CF2 3UP
Ffôn: 01222 494913

**DYDDIAD CAU: GOFFENNAF 21, 1995**



**Huw Roberts** BSc., ACMA

*Cyfrifydd*

**Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau a buddsoddiadau**

"Y Rhodfa", 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
☎ 01443 224182

RHEOLWYD GAN Y PERSONAL INVESTMENT AUTHORITY

# Eglwys Dewi Sant yn cefnogi ordeinio merched




MAE cynulleidfa eglwys Dewi Sant wedi sefydlu grŵp i gefnogi ymgyrch dros ordeinio merched fel offeiriaid yn yr Eglwys yng Nghymru.

Mae hyn yn adlewyrchu teimladau cryfion ymhlith y gynulleidfa. Maen nhw am ofalu y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn rhoi sêl bendith i'r mesur newydd dros ordeinio merched pan fydd yn dod ger bron Corff Llywodraethol yr Eglwys y tro nesaf. Bydd aelodau'r grŵp, yn ddynion a gwragedd, yn ceisio dwyn perswâd ac yn ymgyrchu i'r perwyl hwnnw.

Fel cam cyntaf fe wahoddwyd dau sy'n gwrthwynebu'r ordeinio, Joan Buckingham o Credo Cymru, a'r Parchedig Steve Morgan, Offeiriad o Ferthyr Tudful, i gyfarfod yn Newi Sant wedi'r gosber ar 11 Mehefin i roi eu safbwyntiau nhw. Dywedodd Ms Buckingham ei bod hi'n gwrthwynebu ar dri phwynt:

Yn gyntaf, teimlai y dylid dilyn camre'r Iesu nad oedd wedi derbyn yr un ferch i fod yn apostol. Yn ail, mynnodd fod yr Eglwys yng Nghymru'n rhan o'r Eglwys Fydeang ac na ddylai hi fynd yn groes i gred yr Eglwys Fydeang a gweithredu ar ei phen ei hun. Yn drydydd, teimlai y gallai derbyn merched i fod yn offeiriaid rwygo'r Eglwys a'i gwanhau.

Roedd safbwynt Y Parchedig Steve Morgan, a fynnai nad oedd ymhlith esgobion Cymru "any theological heavyweights" ychydig yn wahanol. Mynnodd ef fod y Beibl, o glawr i glawr, yn datgan mai dynion sydd i awdurdodi. Roedd yn ddigon parod i dderbyn gwragedd i bob swyddogaeth yn yr Eglwys, ond o dan awdurdod dynion yn unig.

Cafwydd trafodaeth frwd i ddilyn a dywedwyd y bydd Cyngor Eglwys Dewi Sant yn ysgrifennu at Archesgob Cymru ac Esgob Llandaf i nodi barn eglwys Dewi Sant ynghylch y mater.

# Nain, nain, nain

Mae cyn-olygydd *Y Dinesydd*, Siân Emlyn, yn nain am y trydydd tro. Ganwyd brawd i Ifan Emyr ac Aled Emyr yn y Felinheli ar ddiwedd Mai, sef Gwion Emyr. Llongyfarchion i Mari Emlyn, ei gŵr, Emyr Roberts a'r teulu oll.

# Genedigaeth Gwion

LLONGYFARCHION i Mair ac Emyr Afan, Lon-y-dail, Rhiwbeina, ar enedigaeth Gwion ym Mai. Brawd bach i Owen, Naiomi ac Osian.


Llun: Robin Griffith

# Cymwynaswr yr ail filltir

MAE'R Dinesydd yn dymuno ymddeoliad hapus i Garwyn Davies, dirprwy brifathro Ysgol Gynradd Llwynfedw sy'n ymddeol ym mis Gorffennaf.

Daeth o Lanafan yng Ngheredigion i Gaerdydd yn athro ifanc a brwd i wasanaethu ymhlith yr athrawon cynradd Cymraeg.

Ar hyd y blynyddoedd fe fu'n gefn i'r Urdd yn y ddinas a bu'n gwasanaethu fel swyddog yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog sawl tro. Bu'n ffyddlon hefyd yng Nghapel y Crwys a chodwyd ef yn flaenor yno ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae'n meddu ar hiwmor y Cardi ac mae'n barod ei gymwynas bob amser a'r un mor barod i gerdded yr ail filltir gyda rhywun. Mae diddordeb mawr ganddo mewn chwaraeon, yn enwedig y bêl gron, ac ar ôl ymddeol bydd digon o amser ganddo i ddilyn ei hoff dimau.

# Diolch teulu

Mae Non a Steve Wilsaw, yr Eglwys Newydd yn dymuno diolch yn ddiffuant am bob neges o gydymdeimlad a charedigrwydd a gawsant yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Gwennan fach. Daeth llawer iawn o arian i'r gronfa goffa ac fe'i rhennir rhwng LATCH a Ty Hafan er cof am Gwennan.

# Priodas ddedwydd

LLONGYFARCHION i Michelle Johnson o'r Rhath a Mark Lewis o Ystrad Mynach ar eu priodas yn Methel, Rhiwbeina, ddiwedd Mai gyda'r Parchedig Haydn Thomas yn gwasanaethu.

# Bri i Goleg Cyncoed

MAE COLEG Addysg Uwch Cyncoed wedi derbyn clod gan Arolygwyr ei Mawrhydi am safonau uchel cyffredinol y lle. Canmolwyd rhai adrannau am waith arbennig, yn eu plith, yr Adrannau B.Ed Cymraeg, Cerddoriaeth a'r Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg, Celf ac Ymarfer Corff.

# Cydymdeimlo

CYDYMDEILMLIR â Margaret Thomas a'i theulu ar farw ei thad ym Methel Llanfyllin. Fe fu Margaret yn byw yn ardal Treganna am flynyddoedd ac yn gweithio yn adran Ffisiotherapi Ysbyty'r Mynydd Bychan.

# Gadael Llanhari



Llun: Robin Griffith

FE FU Ann Saer yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Gyfun Llanhari am flynyddoedd, ond mae wedi penderfynu ymddeol yng Ngorffennaf eleni.

Yn gynnar yn y chwedegau fe'i penodwyd yn ysgrifennydd Pwyllgor Canolog Ysgolion Meithrin Cymraeg Caerdydd, pwyllgor a sefydlwyd ar awgrym y diweddar Ifan Wyn Williams i gyfundrefnu addysg feithrin Gymraeg yn y ddinas. O'r pwyllgor hwn y tarddodd y syniad gwreiddiol am sefydlu Mudiad Ysgolion Meithrin Cymru sydd bellach wedi tyfu'n fudiad pwysig.

Roedd Ann wastad yn pwysleisio'r angen am fod yn broffesiynol ein hagwedd ac mai dim ond y gorau ddylai wneud y tro i blant Cymru. Trosglwyddodd y gred yma yn ei gwaith yn Llanhari a chyn hynny fel tiwtor chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Glantaf, lle roedd yn fawr ei pharch ymhlith yr athrawon a'r disgyblion. Dymuna'r Dinesydd bob hwyl iddi hi yn ei ymddeoliad.

# ...Mynd i Lanhari

LLONGYFARCHION i Helen Davies, Rhiwbeina, ar ei phenodiad yn athrawes Gerdd yn Ysgol Gyfun Llanhari lle y bu'n ddisgybl ar un adeg. Ar hyn o bryd, mae hi'n athrawes Cerdd a Chymraeg yn Ysgol Uwchradd Cathays.

# Maurice Braithwaite

Yn gynnar ym Mehefin bu farw Maurice Braithwaite yn Ysbyty'r Mynydd Bychan wedi cystudd hir a blin. Daeth i Gaerdydd ar ddiwedd y pumdegau, yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd, yna bu'n dysgu mewn nifer o ysgolion a gorffennodd ei yrfa'n ddirprwy brifathro Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen, Pontypridd cyn ymddeol yn 1993.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn rygbi a bu'n chwarae i Bontypridd, Pen-y-bont a Chaerdydd, ond ei gariad mwyaf oedd cerddoriaeth. Roedd yn aelod brwd o'r Ardwyn Singers, côr y mae ei wraig, Helena, yn arweinydd arno. Cydymdeimlir yn ddwys â hi yn ei phrofedigaeth, a hefyd â'r hefeilliaid, Gareth a Vivienne.

# Gwledd o gân

ROEDD nos Sadwrn 3 Mehefin yn noson gyffrous yn Neuadd Dewi Sant yng nghwmni'r Dywysoges Diana i gefnogi'r cyngerdd i godi arian at Apel Tŷ Hafan gyda Pavarotti'n seren y noson. Roedd y neuadd yn llawn a chan fod pob un yn rhoi ei wasanaeth am ddim gobeithir y gwneir tua £100,000 o elw.

Gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan ganu Pavarotti a sylwodd un wraig o Faesteg y byddai wedi bod yn werth cael bod yno pe na bai ond wedi canu "Ba, ba, black sheep"! Cyflwynwyd yr artistiaid gan Nicola Heywood Thomas ac Arfon Haines Davies a threfnwyd y cyfan gan Rod Gunner. Cafwyd gwasanaeth Owain Arwel Hughes, Rebecca Evans, Della Jones, Toby Spence Philip Joll, Kallen Esperian, y Gerddorfa Siambr Seisnig, Côr Polyffonig Caerdydd, Côr Nantes, Llydaw, Cantorion Ardwyn, Cantorion Bae Caerdydd a'r dawnswyr Suzanne Thomas a Simon Snowden. Gwledd yng ngwir ystyr y gair.

# Bron i 200 yn y clwb

FE SEFYDLWYD Cwlwm Busnes Caerdydd i roi cyfle i bobl fusnes Caedydd sydd a chysylltiadau Cymreig i gael cyfle i gyfarfod a siarad â'i gilydd yn Gymraeg.

Mae'n agos at 200 wedi ymuno â'r cwlwm erbyn hyn. Maen nhw hefyd yn hoff o giniawa a bydd y cyfarfod nesaf ym Medi. Y gŵr gwadd fydd Dr Tom Jones, Labordai Lion BIC Eryri.

*Os hoffech chi ragor o wybodaeth am bobl fusnes Caerdydd, cysylltwch â Ceri Preece, Cwmni Hugh James, Jones & Jenkins, Ffon: 224871.*

# Fandaliaeth

YN YSTOD mis Mehefin dangoswyd ffilm ddwyieithog bedair munud ar ddeg o hyd sy'n trafod fandaliaeth yng Nghaerdydd. Fe'i gwelwyd mewn Gŵyl Ffilm a Fideo Rhyngwladol yn ymwneud a'r amgylchfyd yn Pretoria, De Affrica. Defnyddiwyd disgyblion o Ysgol Gyfun Glantaf ac Ysgol Uwchradd Fitzalan, Lecwydd, i gymryd rhan yn y ffilm a chyfrannodd yr actorion syniadau ati wrth iddi gael ei pharatoi. Cafwyd cyfraniad ariannol gan y Swyddfa Gymreig tuag at y fersiwn Gymraeg.

# Ffair hen bethau

CYNHELIR ffair hen bethau yn y Ganolfan Ryngwladol ar 4 a 5 Tachwedd ac mae lle yno i 250 o stondinau. Os carech chi gael stondin yno rhaid ichi frysio gan fod 80% ohonyn nhw wedi mynd yn barod. Bydd amrywiaeth eang o bethau ar werth yno a'r prisiau'n amrywio o ychydig bunnoedd i filoedd o bunnoedd. Dyma'r drydedd ffair o'i bath i gael ei threfnu yn y ddinas.

**Cyfarfod blynyddol y Dinesydd**

# Papur bro cyntaf Cymru yma o hyd

AR 25 Mai cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Dinesydd yn nhafarn yr Hanner Ffordd. Trwy garedigrwydd y perchenogion, llogwyd ystafell y cyfarfod yn rhad ac am ddim.

Roedd y papur wedi gwahodd cynrychiolwyr o wahanol gymdeithasau i'r cyfarfod ond dim ond pymtheg o bobl oedd yn bresennol. Mae'r difrawder a'r diffyg cefnogaeth yn loes i'r cnewyllyn bychan o bobl sy'n ymdrechu i gadw papur bro cyntaf Cymru rhag diflannu.

y DINESYDD

Cytunodd y swyddogion presennol i barhau yn eu swyddi am flwyddyn arall: Cadeirydd: John Rowlands, yr Eglwys Newydd, Ysgrifennydd: Mary Jones, Tongwynlais, Trysorydd: Aled Williams, Radur. Etholwyd y pwyllgor canlynol: Bethan Vaughan Cartwright, Anthony Couch, B D Harries, Robin Jones, W J Jones a Linda Moran. Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol Y Dinesydd a gwahoddwyd y cyhoeddwr Tim Pearce, Y Barri i sôn am ei waith yn paratoi'r papur. Cafodd ganmoliaeth am y diwyg llwgar a graenus.

Does dim golygydd gan Y Dinesydd ar hyn o bryd. Caiff ei lywio gan banel golygyddol ac mae'n gobeithio y bydd y cymdeithasau a'r mudiadau oedd yn absennol yn anfon adroddiadau ato'n rheolaidd.

# Cardiau post o Gaerdydd



YN DDIWEDDAR ymddangosodd llyfr sy'n seiliedig ar gardiau post o Gaerdydd yn ystod Oes y Brenin Edward gan Chris Butler. Brodor o Gaerdydd yw Chris. Cafodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Bechgyn y ddinas. Dysgodd siarad Cymraeg ac am gyfnod wedi 1983 fe fu'n gynghorydd i Nicholas Edwards, oedd yn Ysgrifennydd Cymru ar y pryd. Bu'n gwneud gwaith tebyg yn Swyddfa Wleidyddol y prifweinidog, Maragret Thatcher yn ystod rhyfel y Malvinas.

.Yna daeth yn aelod seneddol dros y Ceidwadwyr yn etholaeth De Warrington ond collodd ei sedd i Lafur yn etholiad 1992. Yn ystod y chwedegau cyhoeddodd lyfryn Cymraeg: Iaith ein Plant. Erbyn hyn mae wedi ymuno a Phil Kelly, sydd yng ngweithgor y Blaid Lafur ac yn olygydd y Tribune i sefydlu cwmni ymgynghorol o'r enw Grandfield. Mae S4C yn un o'i gwsmeriaid.



# Howard Spriggs yn ymddeol

POB dymuniad da i Howard Spriggs, prifathro Ysgol Coed Glas, Llanisien ar ei ymddeoliad wedi dwy flynedd ar hugain o fod yn brifathro.

Gymaint o feddwl oedd gan un o'i gyn-ddisgyblion pan ddysgai yn Ysgol Gynradd Tyllgoed ohono fel iddo drefnu aduniad o'i hoff ddosbarth i ddymuno'n dda iddo. Bu Howard yn weithgar gyda Thŷ'r Cymry am flynyddoedd ac mae wedi bod yn cefnogi pêl droed yn y ddinas am amser maith.

# David Jenkins

YN GYNNAR ym Mehefin bu farw Mr David Thomas Jenkins, un o aelodau ffyddlonaf Eglwys Dewi Sant yn y ddinas, ac yntau ar fin ei 85 oed. Hanai'n wreiddiol o dref Rhymni a dechreuodd ar ei yrfa'n gweithio mewn pwll glo yn Rhymni cyn mynd i fyd yswiriant.

Yn ystod yr ail ryfel byd roedd yn yr awyrlu'n gwasanaethu fel Flight Lieutenant gyda'r Coastal Command. Gwelodd wasanaeth yn yr Eidal, Affrica a Malta.

Wedi dyddiau'r rhyfel bu'n arolygydd gyda chwmni petrol Regent yng Nghernyw ac yn ddiweddarach gyda Texaco yng Nghaerdydd.

Cafodd gystudd blin yn ei ddyddiau olaf ac roedd ei chwaer, Mrs Lizzie Wall, yn fawr ei gofal amdano. Cydymdeimlir yn ddwys â hi yn ei cholled.

# Myfanwy (Nan) Howell

YN SYDYN yng nghanol mis Mai bu farw Mrs Nan Howell yn ei chartref yn Heol Llandennis. Roedd yn hanu'n wreiddiol o Bontlottyn ac yn briod â'r diweddar Lyn Howell, ysgrifennydd cyntaf Bwrdd Croeso Cymru.

Roedd Mr Howell yn flaenor yng Nghapel y Crwys ac yn athro ysgol Sul poblogaidd a dawnus, ond mynnai bob amser na fedrai fod wedi cyflawni'r hyn a wnaeth heb gefnogaeth gyson ei briod. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab, Gareth a'i merch yng nghyfraith, Amy, a'r ddau blentyn, Llywelyn a Rhys, sy'n byw yn yr Unol Daleithiau ar hyn o bryd. Maen nhw ar fin symud i fyw i Genefa. Mae gan Gareth swydd uchel gyda Banc y Byd.

# Os mêt, mêt, yn ôl Gareth Hughes

MAE Gareth Hughes, pymtheg oed, wedi cael ei ddewis yn un o bump dan 16 oed i gynrychioli Cymru i chwarae gwyddbwyll ym Magdeburg, Dwyrain yr Almaen ym mis Gorffennaf eleni. Yno y cynhelir y pencampwriaethau Ewropeaidd.

Gareth yw pencampwr gwyddbwyll Cymru o dan 18 a 21 oed. Bu'n cynrychioli Cymru ym Malta ac fel unigolyn dros Gymru o dan 16 yn Romania yn 1994. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf ac yn byw yn Adamstown.

Mae'n fab i Sara Hughes ac yn un o wyrion Dr John a Mrs Sally Hughes, Casnewydd, Gwent. Roedden nhw fel teulu yn byw yn Rhiwbeina rai blynyddoedd yn ôl. Bu Sally a Bethan Roberts, Radur, yn arweinyddion Cylch Meithrin Rhiwbeina pan agorodd hwnnw yn Hydref 1959. Dr John Hughes oedd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.




# Ras fawr BUPA

CYNHALIWYD ras fawr BUPA yng Nghaerdydd fore Sul 4 Mehefin. Daeth dros 2000 o redwyr i roi prawf ar eu ffitrwydd.

Enillwyd y ras gan Gary Staines o Loegr gyda Justin Hobbs o Gaerdydd o drwch blewyn yn ail iddo.

Enillwyd ras y merched gan Jill Hunter gydag Angharad Mair yn unfed ar ddeg. Roedd ras hefyd i'r athletwyr cadeiriau olwynion a chyflawnodd Chris Holloway'r gamp mewn ychydig dan hanner awr. Daeth Tanni Grey yn drydydd.

# Cofio Roald Dahl

Mae symud i sefydlu canolfan yng Nghaerdydd i gofio Roald Dahl, yr awdur llyfrau plant. Bydd yn cael ei lleoli ym Mae Caerdydd a'r gobaith yw denu miloedd o blant yno i weld golygfeydd a chymeriadau o'i lyfrau.

Ganwyd Roald Dahl yng Nghaerdydd ym Medi 1916 yn fab i Harald Dahl, gwr busnes llwyddiannus o Norwy. Fe fu'r teulu'n byw yn Llandaf a Radur am flynyddoedd, Cafodd Roald ei fedyddio yn Eglwys Norwyaidd y bae. Bu'n ddisgybl yn Elm Tree House ac Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf cyn mynd i Ysgolion Bonedd yn Lloegr.

Symudodd y teulu i Bexley yn Swydd Gaint ond anghofiodd Roald Dahl byth mo'i wreiddiau, ac felly mae'n deilwng sefydlu cofeb i'r gwr a fu farw yn 1990 yn 74 oed.




# Ar daith i America

PA MOR bell fasech chi'n fodlon teithio i ddathlu pen blwydd? Fe aeth chwech ohonom o Gaerdydd dros For Iwerydd wedi'r Pasg i ddathlu degfed pen blwydd ar hugain mudiad sy'n hybu cyfeillgarwch rhwng ieuenctid Ewrop a'r Unol Daleithiau. Enw'r mudiad yw Operation Friendship ac fe'i lansiwyd yn 1965 pan deithiodd tri gwr ifanc o'r Alban i Massachusetts, a dyna gychwyn blynyddoedd o deithio o un cyfandir i'r llall yn enw cyfgeillgarwch.

Mae cangen o'r mudiad yng Nghaerdydd, yn Eglwys y Crwys, ers wyth mlynedd. Eisoes fe aeth dros ugain o Gymry ifanc y ddinas i brofi bywyd yn America am dair wythnos yn yr haf ac rydyn ninnau, y flwyddyn ganlynol, wedi croesawu ieuenctid America i'n cartrefi ni a chael hwyl arbennig yn eu cwmni. Cyn diwedd Gorffennaf bydd dwsin arall o'n hieuenctid ni, dan ofal Miss Mari Lloyd Jones, yn hedfan i Boston ac yn cyfarfod ffrindiau newydd yn ardal Feeding Hills. Mae'n siwr y byddan nhw, fel y lleill, yn llunio cwlwm tynn rhwng y ddwy wlad. Rhieni oedden ni, deithwyr y Pasg, ac fe gawson ni flas o'r croeso a'r cynhesrwydd sy'n aros yr ieuenctid yr haf yma.

Os oes unrhyw un a diddordeb yn y gymdeithas ac am fwy o wybobaeth cysylltwch a Garwyn Davies ar 708253 neu a mi, Ros Williams, ar 751091. Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Does ond rhaid wrth sgwrs fer gydag un neu ddau o'r criw ifanc ichi sylweddoli bod hon yn gymdeithas gwerth chweil bod yn aelod ohoni!

**Ros Williams**

# Caru llyfrau

UN O gymdeithasau mwyaf llwyddiannus y ddinas yw'r Gymdeithas Lyfryddol, a'i haelodaeth yn tyfu'n flynyddol, o dan ysgrifenyddiaeth Wyn James a thrysoryddiaeth Robin Griffith, dau o hoelion wyth Y Dinesydd. Y cadeirydd am eleni yw W J Jones. Bydd y sesiwn gyntaf am 7 o'r gloch 22 Medi yn festri Minny Street - nos Wener. Dewch yno'n llu i wrando ar Robert Rhys o Abertawe'n ein hannerch ar "Daniel Owen".

# Ar grwydr yn y Fro

BU CYMDEITHAS Gymraeg Rhiwbeina ar grwydr ym Mro Morgannwg ar nos Lun 5 Mehefin yng nghwmni Vincent Phillips a bu'n noson i'w chofio. I ddechrau aethom i Eglwys Llanfair lle y priodwyd Iolo Morganwg a'i Ann Mathews yn y ddeunawfed ganrif ac Angharad Mair yn ein dyddiau ni. Yn aed i bentref Trefflemin gan mai yno y bu Iolo'n byw am flynyddoedd, ond does neb a wyr pa le y mae ei fedd. Diweddwyd y noson ym mhentref Tresigin lle y cafwyd pryd o fwyd a chyfle i gymdeithasu cyn dychwelyd. Diolch i Vincent Phillips am noson i'w chofio.

## Cipolwg y mis hwn ar weithgareddau Ysgol Iolo Morganwg

# Mynd i'r 'steddfod

GWYLIAU'R Sulgwyn aeth aelodau'r côr, côr cerdd-dant, parti unsain a dawnsio gwerin ein hysgol ni i Eisteddfod yr Urdd yng Nghrymych.

Roeddem i gyd wedi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Sir De Morgannwg. Roedd rhagbrawf y dawnsio gwerin ar y dydd Llun a rhagbrawf y canu ar y dydd Mawrth. Roeddem i gyd wedi edrych ymlaen at y diwrnod ers tro ac wedi bod yn ymarfer yn yr ysgol am wythnosau lawer. Yn anffodus ni chawsom lwyfan ond er ein siomedigaeth cawsom amser da ar gae'r eisteddfod. Gwelais lawer o stondinau diddorol yno. Fy hoff stondin i oedd Cadwyn, yn gwerthu pethau wedi eu creffio o ledr a phren. Cefais hwyl gyda fy ffrindiau yn y ffair. Hefyd aethom i mewn i'r pafiliwn i wrando ar rai o'r cystadlaethau. Fy hoff gystadleuaeth oedd plant yn canu'r ffliwt.

Fe ddes i adre ar fws mini'r ysgol. Gadawsom Faes yr Eisteddfod am 4 o'r gloch dydd Mawrth. Hanner y ffordd yn ôl fe stopion ni ym Mhont Abraham i ffonio gartref i ddweud pa amser y basen ni nôl. Pan gyrhaeddon ni'r ysgol roedd hi'n 7 o'r gloch ac roedd ein rhieni yno yn aros amdanom. Doedd hi ddim yn daith hir ond teimlais ei bod achos roeddwn i wedi blino'n lân. Cawsom ein siomi ond cawn gynnig arall a gwell lwc gobeithio y flwyddyn nesaf yn Wrecsam, Bro Maelor.

**Alys Meredith**



*Cap: Rhai o'r plant mewn hetiau Pasg del*

# Hwyaid bach chwim

UN O uchelbwyntiau'r flwyddyn yn ein hysgol ni yw'r ras hwyaid a drefnir gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Bydd 200 o hwyaid plastig melyn yn cael eu hebrwng ar hyd rhan o Afon Ddawan sy'n llifo trwy barc y Bont-faen. Mae'r enillwyr yn derbyn gwobrau i'w "perchnogion" - a cheir digon o hwyl wrth eu dilyn (o'r lan!!) at ddiwedd eu taith. Os hoffai eich cymdeithas chi logi'r hwyaid bach chwim(?), cysylltwch â chadeirydd y Gymdeithas, Ysgol Iolo Morganwg.

# Siarad am sbwriel

PRYNHAWN dydd Mawrth daeth y Sioe Sbwriel i'r ysgol. Daeth Gloria'r Gofod i'n daear ni i siarad am sbwriel. Roedd Gloria yn gwisgo trowsus arian a chlogyn arian. Roedd Sali Sbwriel yn taflu pob math o berthau dros y lle i gyd. Roedd Gloria yn ein dysgu ni a Sali beth oedd sbwriel. Roedd pawb wrth eu bodd gyda pherfformiad Dosbarth Blwyddyn 1.

# Cynllun chwarae Pasg

YN YSTOD gwyliau'r Pasg trefnwyd cynllun chwarae'r Urdd yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Dyma'r pumed cynllun i gael ei drefnu yn Ne Morgannwg er Pasg 1994. Fe'i cynhelir bob gwyliau'r ysgol o 8.30 y bore tan un o'r gloch. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r plant, fel coginio, peintio, canu, chwarae a pheintio wynebau. Mae aelodaeth y cynllun yn tyfu a thyfu. Erbyn hyn rydym yn croesawu o gwmpas 45 o blant yn foreol. Mae croeso i blant 5 i 8 mlwydd oed o ysgolion Cymraeg y sir ymuno â ni yn y cynlluniau.

# Dychmygu

Yn y nos
Drip drip sŵn tap
yn union fel hen gloc taid.
Codais ar unwaith a'i droi
i ffwrdd yn ddryslyd

Gwelaf siapiau o bob math ar y to.
Adar yn hedfan, esgyrn yn dawnsio
pob un yn chwarae gêm ar fy nenfwd.
Yn sydyn dyma'r golau yn llenwi'r 'stafell
Mam yn dod adre fel cath ar dân.

Me, me, y defaid yna eto'n
becso dim a oedden nhw mewn tiwn.

Daw'r gwynt drwy'r ffenest
a gwneud fy stafell fel rhewgell.
Chwipiodd fy llenni fel chwip ceffyl.

A-aa rwy wedi blino nawr bant â fi i wlad breuddwydion.
Nos da. Nos da - a - a.

**Elenid Hatcher**

# Mynd am dro

YN YSTOD y tymor fe aeth y plant hynaf i Ganolfan y Celfyddydau yng Nghastell Sain Dunwyd i wrando ar storiwr yn adrodd rhai o straeon y Brodyr Grimm. Roedd nifer o luniau gan yr arlunydd enwog, David Hockney, yno - lluniau oedd yn adlewyrchu rhannau o'r straeon. Bu'r plant wrthi ar ôl hynny yn tynnu lluniau yn ei ddull ef. Casglwyd y gwaith ynghyd ac mae i'w weld am gyfnod mewn arddangosfa yn y Llyfrgell Ganolog yng Nghaerdydd.

# NEWYDDION O GANOLGAN YR URDD

## Ysgol y bêl

YN YSTOD ail wythnos gwyliau'r Pasg trefnwyd Ysgol Bêl-droed ddeuddydd yr Urdd ar gyfer bechgyn a merched ysgolion cynradd y sir. Cafwyd ymateb gwych efo dros 70 o blant o ysgolion Treganna, Y Wern, Pen-y-cae, Sant Baruc, Bro Eirwg a Melin Gruffydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Cafwyd gêmau pump bob ochr, ymarferion sgiliau ac amryw o gystadlaethau pêl-droed eraill. Cyflwynwyd gwobrau yn ogystal â thystysgrifau i bob plentyn a gymerodd ran. Mi fydd ysgol debyg yn cael ei threfnu yn ystod hanner tymor yr hydref.




## Bant i'r coed...

AR DDIWEDD Mai aeth nifer o aelodau'r Urdd yng Nglantaf ar daith i Barc Oakwood. Cafwyd ymateb da i'r trip efo 64 o fechgyn a merched o flynyddoedd saith ac wyth yn ymuno â ni. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gan bawb - ond un, efallai. Syrthiodd un o aelodau staff yr Urdd, Huw Charles, dros ei ben i bwll dŵr y reid rhaeadr. Gobeithio ei fod wedi sychu erbyn hyn!

Bwriedir trefnu trip cyffelyb y flwyddyn nesaf, naill ai i Oakwood neu i Alton Towers.

## Clwb criced

AR DDIWEDD Mai ailgychwynnodd Clwb Criced yr Urdd. Fe'i sefydlwyd ar gyfer aelodau'r Urdd o fewn ysgolion cynradd Cymraeg De Morgannwg ac wedi llwyddiant llynedd, penderfynwyd ailgydio ynddo'r flwyddyn hon. Mae'n cwrdd ar foreau Sadwrn yng Nghaeau Llandaf, Pontcanna rhwng 10.00 ac 11.00 y bore. Mae croeso i fechgyn a merchedf rhwng 7 - 11 oed. Mae tal o £1 y sesiwn.

YDYCH CHI'N EISTEDD YN ANGHYFFORDDUS?

**Fe fyddwch chi ar bigau'r drain wrth i chi wrando ar y storiwyr adnabyddus, Michael Harvey a Daniel Morden, yn adrodd hanesion cyffrous a hudol. Dewch i glywed straeon o'r doniol a'r brawychus i gelwydd golau yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, dydd Llun a dydd Gwener o 12fed Mehefin i 15fed Medi 1995.**

AMGUEDDFA AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

AMGUEDDFA WERIN CYMRU

SAIN FFAGAN,
CAERDYDD, CF5 6XB
FFON: 01222 569441

### PRYSURDEB HAF YR URDD

*Fe fydd yr Urdd, Heol Conwy, yn brysur iawn yn ystod y dyddiau sy'n dod. Wele raglfas o bethau:*

**Cynllun chwarae haf**

Ar 24, 25, 26, 27, 28 Gorffennaf, fe gynhelir Cynllun Chwrae Haf yr Urdd yn y Ganolfan, gan ddechrau am 8.30 y bore a pharhau hyd ginio (1.00pm). Mae croeso i blant 5 i 9 oed i'r gweithgareddau yma.

**Chwaraeon Gerddi Soffia**

Ar 10 ac 11 Awst cynhelir ysgol sboncen yng Nghanolfan Chwaraeon Gerddi Soffia, sesiwn ddwy awr yn cychwyn am ddeg y bore. Croeso i fechgyn a merched blynyddoedd 5 a 6.

**Diwrnod chwaraeon**

Fe fydd diwrnod chwaraeon yr Urdd yn bwysig i lawer. Bydd cyfle am chwarae pêl-droed 5 bob ochr, criced, rownderi a mabolgiamocs. Bydd croeso i fechgyn a merched blynyddoedd 3 a 4 ar 1 Awst a rhai blynyddoedd 5 a 6 ar 2il Awst.

**Trip i Stadiwm Manchester United**

Dydd Mawrth, 8 Awst yw diwrnod y trip ac mae croeso iddo i fechgyn a merched blynyddoedd 5 a 6. Bydd y trip yn ymweld â stadiwm Manchester United, yr amgueddfa, yr ystafelloedd newid, ystafelloedd y tlysau a siop y clwb, ac yna fe fyddan nhw'n mynd i chwarae Superbowl a Quazar. Fe fydd yn ddiwrnod i'w gofio i bawb.

**Following last month's look at how to receive good news, our Welsh learners feature turns to how you sympathise with people**

# ...A dyma'r newyddion drwg

YNG NGOFAL ALUN A MAIR TREHARNE

Does neb yn dymuno (wish) derbyn newyddion drwg am rywun. Mae colli perthynas neu ffrind yn eich ysgwyd. Weithiau byddwch yn disgwyl y newyddion achos bod person wedi bod yn wael (ill) iawn neu achos bod rhywun wedi mynd yn hen ac yn wan (weak). Dro arall bydd y newyddion yn annisgwyl (unexpected). Mae gwybod bod pobl eraill yn cydymdeimlo â chi yn gallu bod yn help.

## YMATEB I NEWYDDION DRWG / RESPONDING TO BAD NEWS

### Geirfa:

| | |
|---|---|
| Dyna drist | How sad. |
| Dyna golled | What a loss! |
| Dyna drychineb! | What a tragedy! |
| Dyna fendith` | What a blessing (pan fydd person wedi dioddef (suffer) ers amser hir. |

### Enghreifftiau:

**Roedd hi'n ddrwg iawn 'da fi glywed y newyddion.**

**Roedd hi'n ddrwg calon 'da ni glywed am eich modryb.**

**Roedd hi'n wir flin 'da fi glywed am eich profedigaeth (bereavement).**

## CYDYMDEIMLO AR LAFAR / I WAS VERY SORRY TO HEAR ETC..

Yn aml byddwn yn dweud ychydig eiriau i ddangos ein parch (respect) at y person sydd wedi marw:

### Geirfa:

Roedd gen i barch mawr at ... I had a great respect for ...
Roedd gan bawb barch mawr at ...
Cafodd .... ddylanwad mawr arna i.
...... had a great influence on me.
Bydd bwlch mawr ar ei ôl / ar ei hôl.
He/she will be greatly missed.

### Enghreifftiau:

**Roedd gen i barch mawr at eich mam.**
**Cafodd eich brawd ddylanwad mawr arna i.**

## CYDYMDEIMLO AR BAPUR/EXPRESSING SYMPATHY IN WRITING.

Byddwch wedi gweld darnau fel y tair enghraifft ganlynol yn Y Dinesydd.

### Enghreifftiau:

**Cydymdeimlwn a Mrs Elen Price, 18 Trem y Fro, ar farwolaeth ei gŵr ddechrau mis Mai.**
**Cydymdeimlwn a John Jones, 85 Lon y Rheilffordd, yn ei brofedigaeth.**
**Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Olwen Tomos yn eu profedigaeth.**

### Geirfa:

| | |
|---|---|
| Cydymdeimlwn â .... | We sympathise with .... |
| ar farwolaeth | on the death of |
| yn ei brofedigaeth | in his bereavement |

Os byddwch am gydymdeimlo'n bersonol ar bapur efallai y bydd y patwm canlynol yn help i chi:

Annwyl Sian,

Dyma ddanfon gair atoch i gydymdeimlo â chi yn eich profedigaeth. Roedd hi'n wir flin gen i glywed am eich profedigaeth. Roedd hi'n wir flin gen i glywed am farwolaeth sydyn Dafydd. Roedd gen i, a phawb oedd yn ei adnabod, barch mawr at eich gŵr. Bydd bwlch mawr ar ei ôl. Rydym yn meddwl amdanoch chi a'r teulu yn eich hiraeth.

Yn ddiffuant,

Dear Sian

I am writing to sympathise with you in your bereavement. I was truly sorry to hear of Dafydd's sudden death. I, together with all who knew him, had a great respect for your husband. He will be greatly missed. We are thinking of you and the family in your grief.

Yours sincerely,

D

**CANOLFAN DYSGU CYMRAEG I OEDOLION**
PRIFYSGOL CYMRU, COLEG CAERDYDD

Cyrsiau dwys i ddysgwyr yn cyfarfod bob dydd.

Cyrsiau dechreuwyr a chyrsiau uwch yn dechrau Gorffennaf 24ain neu Medi 18fed.

22 Park Place, Caerdydd CF1 3DQ Ffôn 01222 390980

# O'r tu draw i'r cyhydedd




GYDA
**TOM DAVIES**

Brynhawn Sul, Mehefin 11eg, a minnau newydd weld Seland Newydd yn cyrraedd Rownd Gynderfynol Cwpan y Byd trwy guro'r Alban o 48 - 30 ac o 6 chais i 3. Byddai hynny'n golygu mai Lloegr y byddai'r Crysau Duon yn eu chwarae yn Nhre'r Penrhyn - trueni fod yn rhaid i mi ysgrifennu cyn gweld honno, ond rhagwelwn i Rownd Olaf rhwng De Affrig a Seland Newydd. Fe wyddoch ai cywir y proffwydo ai peidio a chan i'r Saeson drechu Awstralia yn niwedd eu gornest, gallai hi fod wedi bod yn broffwydoliaeth ddewr. Beth bynnag, rhawd Cymru oedd yn fy mhoeni'n fwy na dim ar y pryd.

### *Cymru'n drychinebus*

Ni allem ni guro Iwerddon, hyd yn oed, yng ngornest waetha'r gystadleuaeth, tan y Rownd Gynderfnynol o leiaf. Ac fe brofodd y canlyniad yn erbyn y Crysau Duon na chaewyd y bwlch rhyngom a nhw; tri chais i ddim a dim i'n calonogi yn y pedwar ugain munud ym Mharc Elis, Johannesburg.

Sgoriodd y Gwyddyl dri chais yn erbyn Seland Newydd, gan ildio pump, a sgoriodd yr Alban dri hefyd, ac er i'r Crysau Duon sgorio chwech yn eu herbyn, mae sgorio tri chais yn erbyn y wlad honno'n dipyn o gamp.

Rhaid inni ddechrau o'r gwaelod eto, mae ofn arnaf, gan ddewis carfan o chwaraewyr ieuainc.

### *Gwendidau*

Prif wendid y tim a chwaraeodd yn y Cwpan oedd y blaenwyr rhydd, ond does fawr i'w ddweud dros y gweddill o'r wyth, ac eithrio John Davies a JohnHumphries. Mae gwir angen blaenwyr athletaidd, caled a chryf arnom a hyd nes inni feithrin y fath flaenwyr, waeth inni beidio â son am Gwpan y Byd.

Ar hyn o bryd rydyn ni yn nhrydedd rheng gwledydd y byd.

**D**

# Cefnogaeth hael

Mae cwmni cyfreithwyr Hugh James Jones a Jenkins wedi noddi crysau tîm rygbi Glantâf ar eu taith i Awstralia y mis yma. Mae 33 o fechgyn yn mynd ar 21 o Orffennaf, y tîm cyntaf o'i fath i fynd i Awstralia. Diolch i'r cwmni am eu cefnogaeth hael - a phob lwc i'r tîm!




# Gwobrwyo dau lenor

Llongyfarchion i Aled Islwyn a Duncan Bush ar ennill anrhydedd am eu llyfrau Unigolion yr Unigeddau a Masks yn seremoni wobrwyo Llyfr y Flwyddyn dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru yn y Tŷ Llen yn Abertawe. Fe dderbyniodd y ddau £3,000 yr un am eu gwaith.

Uwch-swyddog Cyhoeddusrwydd gydag S4C yw Aled Islwyn ac mae'n hanu'n wreiddiol o Bort Talbot. Mae'n byw yng Nghaerdydd bellach ac yn un o gyn-olygyddion Y Dinesydd.

Daw Duncan Bush o Gaerdydd yn wreiddiol ac mae'n ddarlithydd mewn ysgrifennu creadigol yng Ngholeg Gwent, Casnewydd.

# Anrhydedd i ffilm

Mae Siân Roderick, gynt o Riwbeina, a merch i Mr a Mrs Selwyn Roderick, wedi ennill prif wobr am ei ffilm ddogfen, *Y Ffordd Galeta*, sy'n sôn am frwydr dau berson o Ogledd Cymu yn erbyn cyffuriau. Cafodd ei gwobr mewn seremoni gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Ngwesty'r Grosvenor, Llundain. Mae Siân wedi priodi ag Americanwr ac mae hwnnw wedi dysgu'r Gymraeg. Yn Efrog Newydd y dysgodd Sian ei chrefft ac mae'n amlwg ei bod wedi dringo'n uchel erbyn hyn.

## 'Short Walks from South Wales Pubs'

**Paul Traynor**
**Countryside Books £4.99**

**ADOLYGIAD**

Mynnai mam fod unrhyw dafarn hanner y ffordd i uffern, ond mae pethau wedi newid cryn dipyn erbyn hyn ac mae tafarnau'n fannau cyfarfod poblogaidd.

Maen nhw hefyd yn lleoedd hwylus ar gyfer ciniawau Sul ac ar ôl cinio lled dda does dim yn well na mynd am dro i'w dreulio.

Fe ddylai'r llyfr yma felly fod yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n hoffi bwyta, cerdded ac astudio hen adeiladau.

Mae ei gynllun yn syml. Mae'n dechrau trwy ddisgrifio'r dafarn ac yna'n nodi beth mae'n ei gynnig i'r stumogus, gan gynnwys gwinoedd. Dangosir sut i fynd yno a cheir rhif ffôn os am logi lle. Yna ceir disgrifiad o'r daith a nodir pa mor hir fydd hi. Dwy filltir yw'r daith fyrraf (taith wedi byrbryd) ac mae'r rhai hwyaf yn bedair milltir - taith wedi pryd go lew.

Mae'r holl deithiau'n ymestyn o Benrhyn Gŵyr i'r Fro, ac i gyrion Caerdydd ac mor bell a Threllech yng Ngwent, ugain o deithiau i gyd.

Mae'n llyfr reit handi i'r rhai sy'n hoffi bwyta a chrwydro yn ardal y Dinesydd ac yn fargen am y pris.

**W J Jones**


# Teithio'r holl ffordd o India i dderbyn y tlws

Ceiri Torjussen (gweler llun ar y dde) o Haulwen Rhiwbeina a enillodd Dlws Cyfansoddi Eisteddfod yr Urdd ym Mro'r Preseli a theithiodd yr holl ffordd o India i gael bod yn bresennol yn y seremoni. Perfformiwyd rhan o'i waith yn ystod y seremoni honno, ar ddydd Gwener yr wyl, gan grwp o bobol ifanc.

Fe fu'n ddisgybl yn Ysgol Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd cyn mynd yn ei flaen i Glantaf a Choleg Dewi Sant. Wedyn penderfynodd dreulio blwyddyn yn teithio ac ers misoedd bellach mae wedi bod yn dysgu Cerddoriaeth, Bywydeg a Chemeg mewn ysgol wrth droed yr Himalayas yng Ngogledd India. Bydd yn dychwelyd yn yr hydref i barhau ei gwrs addysg ym Mhrifysgol Caerefrog.

Mae'n hoff iawn o gerddoriaeth a bu'n aelod o grwp jazz a ymddangosodd yng Ngwyl Jazz Aberhonddu. Mae'n canu'r utgorn a'r piano. Ei daid o ochr ei fam oedd y diweddar Barchedig Emrys Roberts a enillodd fedal ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhuthun yn 1973.

Yr ail yn y gystadleuaeth oedd Carys Moseley, Ysgol Gyfun Glantaf. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.



# Y Goron i fyfyrwraig o Gaerdydd

Enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd ym Mro'r Preseli eleni oedd Esyllt Nest Roberts o Bwllheli. Ar hyn o bryd mae'n astudio am radd uwch yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd; hyn wedi graddio yn y Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth.

Yr ail yn y gystadleuaeth oedd Aled Richards, Aberystwyth sydd yn y Coleg Normal ar hyn o bryd. Fe fydd yn dod i Gaerdydd ym Medi gan ei fod wedi cael ei benodi yn athro yn Ysgol Gymraeg y Wern. Bu ei fam, Eluned Ffransis gynt, yn athrawes Gymraeg yn y brifddinas am flynyddoedd ac roedd Waldo Williams y bardd yn ewythr iddi. Llongyfarchiadau i Esyllt ac Aled ar eu llwyddiant.

# Only fools and horses

Un o actoresau'r gyfres boblogaidd *Only Fools and Horses* yw Gwyneth Strong. Mae ganddi gysylltiadau â Chaerdydd. Fe fu mam Gwyneth, sef Mair Williams, a'i chwaer Gwyneth a'u rhieni yn byw yn ardal Llwynfedw am flynyddoedd ac yn aelodau yng Nghapel y Crwys. Daeth y teulu i fyw i Gaerdydd o bentre ger Llandudno. Erbyn hyn mae Mair yn byw yn Llundain a'i chwaer yn briod â meddyg ac yn byw yn Llanrwst.

A ffilmiau

FFILMIAU APOLLO
Ar eich Sgrîn
mis Gorffennaf

'Dudley'

Ffilmiau Apollo, Canolfan y Cyfryngau, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ. Ffôn: 01222 590119

## EISTEDDFOD YR URDD, BRO'R PRESELI
## LONGYFARCHIADAU I'N HENILLWYR

# Caerdydd ar y llwyfan

**Addysg gorfforol, parau dan 19 oed:**
Gwobr gyntaf i Emma a Rebecca, Ysgol Gyfun Corpus Christi.
**Siarad Cyhoeddus unigol; dan 19 oed:**
Ail wobr i Mereid Michael, Ysgol Gyfun Glantaf.



**Cerddorfa Bres/Band Chwythbrennau dan 25 oed:**
Ail wobr i Ysgol Gyfun Fitzalan.
**Unawd telyn 15-19 oed:**
Trydedd wobr i Lisa Thomas, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Tlws y Prif Gyfansoddwr:**
Ceiri Torjussen.
Ail wobr i Carys Moseley, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Addysg Gorfforol unigol i ferched 15 - 19 0ed:**
Ail wobr i Lynette Hutchings, Ysgol Uwchradd Corpus Christi.
**Drama Oedran Blynyddoedd 10 - 13 (ysgolion uwchradd):**
Trydedd wobr i Ysgol Gyfun Glantaf.
**Cor SATB oedran Blwyddyn 13 ac iau:**
Gwobr gyntaf i Ysgol Gyfun Glantaf.
**Ymgom 15 - 19 oed:**
Trydedd wobr i Hannah a Bethan, Ysgol Gyfun Glantaf.


## GADEWCH I BROOK STREET HWYLUSO'R GWAITH O CHWILIO AM SWYDD

Mae Brook Street bob wythnos yn darparu staff dros dro, dan gontract a sefydlog i filoedd o sefydliadau, boed yn fawr neu yn fach, drwy ein rhwydwaith o dros 100 o ganhennau yn yr D.U.

Yn ein cangen yng Nghaerdydd mae gennym gyfleoedd ar gyfer unigolion Cymraeg eu hiaith fel a ganlyn.

**Ysgrifennydd Gweithredol Rhan-Amser**
- 18 1/2 awr yr wythnos. Llaneirwg.

**Derbynnydd/Teleffonydd**
- contract un flwyddyn, yn rhannu swydd. Ardal Llanisien.

Cysylltwch â ni yn awr ar 01222 397471.

Brook Street, 53 Heol y Frenhines, Caerdydd CF1 4AS.

**BROOK STREET**

**Grwp Llefaru oedran blynyddoedd 10,11,12,13 i ddysgwyr:**
Ail wobr i Goleg Dewi Sant, Caerdydd
**Coron yr Eisteddfod:**
Esyllt Nest Roberts
**Llefaru unigol 15 - 19 oed:**
Trydedd wobr i Esyllt Davies, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Unawd Piano 15 - 19 oed:**
Trydedd wobr i Carys Moseley, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Addysg gorfforol unigol i ferched 12 - 15 oed:**
Gwobr gyntaf i Rebecca Morgan, Ysgol Uwchradd Corpus Christi.
**Grwp llefaru 12 - 15 oed i ddysgwyr:**
Trydedd wobr i Barti Emily, Ysgol Howell, Llandaf.
**Unawd piano 12 - 15 oed:**
Ail wobr i Erin Fuller, Ysgol Uwchradd Corpus Christi.
**Côr Adran Blwyddyn 6 ac iau (ysgolion a thros 150 o blant rhwng 5 ac 11 oed):**
Ail wobr i Ysgol Coed-y-gof.
**Unawd chwythbrennau dan 12oed:**
Gwobr gyntaf i Iestyn Shapey, Ysgol Gymraeg Y Wern.
**Addysg Gorfforol, parau dan 12 oed:**
Helen a Holly, Ysgol Gynradd Sant Joseff yn rhannu'r drydedd wobr.
**Cyflwyniad dramatig, oedran blynyddoedd 6 ac iau:**
Ail wobr i Ysgol Gynradd Pen-y-cae.


celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

**RHEOLWYR BUDDSODDI ANNIBYNNOL**
**Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru**

***Yn meddwl buddsoddi?***

***Am gyngor di-duedd dewch at yr annibynwyr!***

***Cysylltwch â Howard Bailey***

**24, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF1 9RW**
**ffôn (01222) 394021/6 ffacs (01222) 228452**

**Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn aelod o grŵp ccc Guinness Mahon Holdings, yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain**



# Meddwl rydych chi'n gallu gwerthu hysbysebion ydych chi?

## Mae'n bosib y byddwn ni'n cytuno â chi.

Rydyn ni angen pobl sy'n medru'r Gymraeg i werthu hysbysebion ar sawl prosiect. Dyw profiad ddim yn angenrheidiol - gwell gennym frwdfrydedd ac awydd dysgu.

Cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod i ddarganfod mwy.

Newsline PUBLISHING

Tim Pearce, Newsline Publishing, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 01222 452383



GWYL BANC AWST
SBWRIEL/AILGYLCHU
CAERDYDD

ENVIRONMENTAL SERVICES

**Gofynnir i chwi gymeryd sylw arbennig o'r newidiadau sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol) yn ystod yr ŵyl.**

| Eich Casgliad Arferol | | | Trefniadau Casglu Dros Dro | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 28ain o Awst | yn newid i | Ddydd Mercher | 30ain o Awst |
| Dydd Mawrth | 29ain o Awst | yn newid i | Ddydd Iau | 31ain o Awst |
| Dydd Mercher | 30ain o Awst | yn newid i | Ddydd Gwener | 1af o Fedi |
| Dydd Iau | 31ain o Awst | yn newid i | Ddydd Sadwrn | 2il o Fedi |
| Dydd Gwener | 1af o Fedi | yn newid i | Ddydd Sul | 3ydd o Fedi |

*Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich dyddiad casglu newydd neu cyn 7.15am fore'r casgliad ei hun.*

Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel o fewn yr adeiladau hyd y casgliad nesaf.

Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth clinigol nodi bydd y trefniadau uchod yn berthnasol hefyd.

Bydd safle gwaredu sbwriel Lamby Way ar gau ar Ddydd Llun G ŵyl Banc Awst.

Bydd holl storfeydd glanhau y Cyngor ar agor fel arfer dros y gwyliau.

FFONIWCH ☎ CAERDYDD 822110
GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU

# Prifweithredwr Cymraeg i'r Ddinas

Yn sgil ad-drefnu llywodraerth leol yng Nghymru penodwyd Byron Davies, prif weithredwr presennol Cyngor Sir De Morgannwg, yn brif weithredwr cyntaf Cyngor Sir Caerdydd fydd yn dod i fodolaeth yn Ebrill. Bydd yn ennill cyflog o £78,000 y flwyddyn. Mae Byron Davies yn 48 oed ac yn hanu o Drimsaran ger Llanelli. Gall siarad Cymraeg yn rhugl.




# Cyfarwyddwr Tenovus

Penodwyd Marc Phillips, brodor o Gaerdydd, ond un a fagwyd ym Merthyr Tudful, yn Gyfarwyddwr Elusen Tenovus sy'n gwneud cymaint o waith clodwiw dros orchfygu canser. Fe fu'n gweithio fel Trefnydd yr Urdd ym Morgannwg Ganol am gyfnod cyn treulio naw mlynedd yn gyfarwyddwr Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Dyfed. Mae e'n briod ag Elaine ac yn dad i ddau o blant. Dymuna'r Dinesydd yn dda iddo yn ei swydd newydd.


## DEFNYDDIWCH "LLAIS y GYMUNED"

Gall *y Dinesydd* gynnig cyfle marchnata unigryw i gyrraedd yn gyson dros 14,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y Brifddinas a'r cylch.

Dengys ein harolygon bod mwyafrif ein darllenwyr yn y grwpiau ABC1, ac yn eu plith mae rhai o bobol mwyaf dylanwadol y genedl. Mae cylchrediad *y Dinesydd* yn uwch o lawer nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg lleol neu genedlaethol arall.

Achubwch ar y cyfle marchnata unigryw yma trwy hysbysebu yn *y Dinesydd*. Mae ein cyfraddau yn rhesymol iawn, ac mae gostyngiadau ar gael ar gyfer cyfresi.

**Cysylltwch â: Tim Pearce neu Justin Webb, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX**
**Ffôn: 01222 452383 Ffacs: 01222 487220**

**y DINESYDD**


# Gweinidog newydd Ebeneser



Ychydig yn ôl yn Y Dinesydd, cyfeiriwyd at gyfarfod sefydlu'r Parchedig Ddoctor Alun Tudur. Yn y cyfafod hwnnw dywedwyd pa mor anodd oedd hi i ffarwelio â'i frawd, Dr Geraint Tudur a fu'n gwasanaethu Ebeneser am 16 o flynyddoedd. Y gobaith yw y bydd ei frawd Alun gyda ni am amser tebyg neu fwy yn Ebeneser ac yn y ddinas. Estynna'r Dinesydd bob croeso iddo i'n plith.

# Cadeirydd o bwys

Mae Gareth Davies, Prif Weithredwr Clwb Athletig Caerdydd wedi'i benodi'n gadeirydd Parc Hamdden yr Eigion, Cyf, perchenogion newydd Y Ganolfan Dennis Genedlaethol Gymreig a Chlwb Metropolitan Bae Caerdydd.

Bydd cynllun sy'n costio £5m yn agor ei ddrysau i'r cyhoedd ym mis Hydref a bydd tri chwrt tennis ar ddeg yno, chwech ohonyn nhw o dan do. Bydd y clwb yn cynnwys campfa, stiwdios aerobig a dawns a phwll nofio.

Hyd yn ddiweddar roedd Mr Davies yn Bennaeth Campau BBC Cymru, swydd y mae Arthur Emyr ynddi erbyn hyn.

# Croeso'n ôl

Croeso'n ôl i Gaerdydd i Sioned Guy, Rhiwbeina, sydd wedi bod yn gweithio yng Nghanolfan Bwrdd Croeso Cymru yn Llundain am flwyddyn. Mae'n awr wedi cychwyn ar waith yn y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd.

# Swydd newydd

LLONGYFARCHION i Elwyn Owen, Pantmawr, Rhiwbeina, ar ei benodiad yn gyfarwddwr ymchwil yn y sector gyhoeddus gyda Chwmni Ymchwil Beaufort, sef Cwmni Ymchwil Marchnata'r Defnyddwyr. Cyn ei benodi i'r swydd hon roedd yn gweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru fel cyfarwyddwr ymchwil a chynllunio corfforaethol.

# LLOYD:

## Cyfaill, cymydog, cymdeithaswr, cymwynaswr, capelwr, Cristion, Cymro da...

GAN
**Y PARCHEDIG HAYDN THOMAS**

Cyfeiriodd y Dinesydd yn rhifyn Mehefin at y golled enfawr pan fu farw Howell Lloyd Evans. Mae bwlch aruthrol ar yr aelwyd ac ymhlith ei gydnabod o bell ac agos. Mae'n anodd dygymod a'r ffaith a ddeil yn anghredadwy. Yng ngeiriau Dic Jones:

*"Heddiw'n ffaith, y ddawn ffodd.*
*Credu hyn sy'n anodd."*

Syfrdan y safasom ac eto fe'n siglwyd oll pan glywsom am ei farw. Bu sydynrwydd yr ymadael yn gyfrwng i'n taro'n fud. Atseiniodd y newydd trist mewn byr amser i gylch eang o ffrindiau dros Gymru nes peri i ni deimlo, gyda'r teulu, ddyfnder eu hing a'u loes. Y mae ei gofio a'u hiraeth hwy yn dal i fod yr un i ninnau.

Daeth cynulleidfa fawr i Salem brynhawn Iau, 18 Mai mewn parch i Lloyd - y cyfaill, y cymydog, y cymdeithaswr, y cymwynaswr, y capelwr, y Cristion a'r Cymro da. - hyn yn dystiolaeth deilwng iawn o edmygedd pawb a'i hadnabu.

Bu Lloyd yng Nghaerdydd am dros ddeugain mlynedd, cyfnod llawn o waith a gwasanaeth wrth gefnogi'r pethe gorau. Fe wnaeth gyfraniad aruthrol i fywyd Cymreig y ddinas a thu allan i'r cylch hwnnw.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Enyd, Nest, Aled, ei deulu annwyl, i'w chwaer Mair a'i "frawd bach" John Albert a'r teulu i gyd.

Fel y disgwylid, derbyniwyd mynegiant helaeth o gydymdeimlad drwy'r galwadau, llythyron, cardiau ac ymweliadau a werthfawrogwyd yn fawr iawn gan y teulu.

Nid yw'n fwriad gennyf fod yn hir gan nad oedd Lloyd yn hoffi lot o "ffys". Eto gweddus yw talu teyrnged deilwng iddo a haeddiannol ohono. Mae hi'n anodd gwybod ble i ddechrau ac yn sicr mae hi'n anodd gwybod ble i orffen gan fod cymaint i'w ddweud. Ac wedi dweud fe fydd llawer ar ôl heb ei ddweud. Byddai'r ffrindiau i gyd yn medru llenwi'r bylchau yn ôl eu profiad a'u hadnabyddiaeth ohono.

Rhoddodd y gwr amryddawn, llawn hwn ei gwbwl i wasanaethu. Bu'n athro a phrifathro ymrwymedig a chydwybodol, yn boblogaidd gan ei gyd-weithwyr ac yn sicr gyda'r plant.

Pan oedd Eisteddfod yr Urdd yn y Barri ac yntau yn brifathro Ysgol Gynradd Colcot, ymdaflodd ei hun i'r paratoadau cyn yr ŵyl ac yna i'w chanol pan ddaeth.

Tebyg oedd ei waith caled wrth baratoi'r maes ar gyfer derbyn yr Eisteddfod Genedlaethol i Ben-twyn. Mae ei waith egniol a thrylwyr yn ddihareb.

Roedd ei fedrusrwydd yn ymestyn i lawer cyfeiriad a diddordeb. Wedi ymadael a'r ysgol daeth Lloyd y crefftwr yn fwy i'r amlwg. Gwnaeth waith aruthrol ar adeiladau ac addurno cartrefi lawer. Roedd galw mawr amdano. Mae gwaith ei ddwylo medrus i'w weld mewn llawer man yng Nghaerdydd ac ymhellach i ffwrdd. Byddwn ni yn Salem yn fythol ddiolchgar iddo am ei ddiddordeb a'i waith mawr wrth ddiogelu, atgyweirio ac addurno'r capel. Fe oedd cadeirydd y pwyllgor oedd ynglŷn â'r adeiladau. Fe welwn ei eisiau yn enbyd.

Roedd y Gymanfa Ganu yn y Crwys y Sul yn dilyn yr angladd. Gwag oedd ei le. Fe fyddai fel arfer yn y cyntedd yn gwahodd ac yn sicrhau fod gennym raglen y gymanfa. Mynegwyd y golled gan y ffyddloniaid yna ac yntau hefyd yn drysorydd y pwyllgor. Fe'm hatgoffwyd hefyd iddo fod am flynyddoedd yn y chwedegau y drysorydd Tŷ'r Cymry, Gordon Road ac am y gwaith mawr a gyflawnodd i gadw'r gymdeithas honno i fynd.

Gofod a'm ceidw rhag ymhelaethu am ei ddiddordebau ym myd y ddrama fel actor a setiwr, mewn cadw'n heini a cherdded, fel canlynwr selog y bêl gron.

Yn olaf yr oedd enw un lle yn aml iawn ar ei wefusau. Mynych y cyfeiriai at fro ei febyd, a'i gariad at Fwlch-llan. Nid anghofiodd y graig y naddwyd ef ohoni. Y gwladwr a ddaeth i'r ddinas ac a ddaliodd i fod yn wladwr. Aeth ei lwch yn ol i Fwlch-llan.

Mae llawer gyda ni i ddiolch amdano. Roedd ganddo galon fawr a hiwmor iach. Ein braint ni i gyd oedd cael ei adnabod a rhannu oriau lawer a hapus yn ei gwmni.


Bendith y nef fo ar ei deulu annwyl. Diolch i T. James Jones am grynhoi'r deyrnged yn yr englyn hwn:

*Ni bu Cardi caredicach - na'i ail*
*Wrth allor cyfeillach,*
*Na'i ail fel bugail rhai bach,*
*Na gŵr na thad rhagorach.*

D

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 146 Gorffennaf/Awst 1995



**AR DRAWS**

5. Y ffroen chwith yn ein cadw ar ddi-hun (2,4)
6. Na chwyner eich bod yn gwylio'r claf wrth ei wely. (6)
9. Nid llog yw achos ei dymer ddrwg. (6)
10. Eu meddyg L. yn dod i'w swcro. (8)
11. Cynhaliaeth sy'n cyrraedd mewn pryd. (4)
12. "Mae arnaf eisiau sel" i gael yr ateb. (11)
13. Nid yw'n chwymu.(5',1,5)
18. Rhoddwyd bwys o'r grug i leihau ei siom. (5,5)
21. Yn ddiarhebol mae'n bosibl eu cael ymhob gwlad. (4)
22. Mintai o gerddwyr yn dilyn arweinydd? (8)
23. Nid yw'r ffaith fod I.B. yn daid yn gallu rhoi stop arno. (6)
24. Chwaraeon y Thesbiaid. (6)
25. Cael cyfeddach. (6)

**I LAWR**

1. De Llydaw a fu yn hawdd ei amgyffred. (8)
2. Stôr i dynnu ohono. (6)
3. Tagu Harri! Tosturia wrtho gan dynnu un pen i ffwrdd a llacio'r gwed-dill. (8)
4. Sylwch fod wyneb Degwel Wiliam yn glasu wrth ddarllen y cliw. (6)
5. Mae'n gywir ac yn deg. (2,4)
7. Yr hyn a wna'r corynnod. (6)
8. Ac yma, gŵr sy'n barod i wneud tro da. (11)
14. Plas y Prysiaid y tu allan i Aberystwyth. (8)
15. Swydd a maes awdurdod un arall sy'n byw mewn plas. (8)
16. Haws na hwn yw dweud. (6)
17. Dihangodd Paul a'i gyd-deithwyr i hon o'r llongddrylliad. (6)
19. Atebodd ran o'r cwestiwn heb ymhel a chraidd ei ystyr. (6)
20. Daeth Marie Curie o hyd iddo. (6)

Datrysiad at ap Lewsyn, 13 Rannock Drive erbyn 31 Gorffennaf os gwelwch yn dda. Bydd tocyn llyfrau gwerth £5 yn wobr i'r datrysiad cywir cyntaf a ddaw o'r het.

**Cystadleuaeth Rhif 145**. Derbyniwyd chwe ymgais hollol gywir. Enillydd y tocyn £5 y tro hwn yw Mrs Hanna Simpson, Is-y-Coed Fach, Llansanwyr, Y Bontfaen. Gobeithiaf fod y tocyn wedi ei chyrraedd eisoes.

**Cystadleuaeth Rhif 146**. Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, erbyn diwedd y mis, hyd y gellir.

### DATRYSIAD RHIF 145



**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ............................................

*Cyfeiriad* ............................................

*Rhif ffôn* .................... *Rhifyn mis* ....................

*Geiriau:*

............................................

............................................

............................................

............................................

*Cost: 25c y gair, £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***

# Mae'r amser wedi dod

## Y Gair Olaf

Mae'r dyddiau wedi ymestyn, yr haul yn tywynnu a chlychau'r fan hufen ia i'w clywed ym mhob stryd. Gall hyn olygu un peth yn unig. Arholiadau.

Mae'r hen ddihareb golegol yn wir - os oes arholiadau ar y gorwel, mae hi'n siwr o fod yn braf. Ond wchi be, tydi o ufflon o ots gen i, oherwydd am y tro cyntaf erioed tydw i ddim yn gorfod sefyll rhai!

Er mod i wedi graddio ers blwyddyn bellach, pan ddechreuodd y tywydd braf, mi ges i ryw deimlad o anniddigrwydd fel petawn i fod yn y llyfrgell, yn chwilota drwy hen gylchgronau *Barn* neu'n chwilio'n amyneddgar drwy'r *Cydymaith;* neu wrth gwrs yn siarad yn ddistaw (wel, eitha distaw) efo fy nghyd-fyfyrwyr, tan i ryw swot o'r Adran Athroniaeth weiddi "SHHH!!" yn uchel.

Ond does gen i ddim byd ond cydymdeimlad tuag at y rheiny sy'n gorfod sefyll arholiadau. Druan ohonyn nhw'n gorfod treulio'r penwythnos gyfan a'u trwynau mewn llyfr, yn gorfod dysgu ffeithiau diflas am bwnc diflas, tra bod y gweddill ohonom yn chwarae friz bee yn y parc neu'n mynd am bicnic i'r traeth. Druan ohonyn nhw.

Ond mae arholiadau'n bethau pwysig wrth gwrs. Maen nhw'n profi pa mor dda ydi'ch cof chi; maen nhw'n eich dysgu chi sut i sgwennu'n daclus ac mi gewch chi ymarfer eich sgiliau proffwydo wrth ichi geisio dyfalu pa gwestiynau fydd ar y papur. Y Gogynfeirdd? Be 'di'r rheiny, felly?

*Noder: Roedd hi'n ganol Mehefin pan oedd erthygl Beca'n cael ei gosod.*

**D**

## HYSBYS

**BWTHYN** i'w rentu. Un ystafell wely, wedi ei ddodrefnu. Yn y Groeslon ger Caernarfon. Ffôn 01222 231439.

**SWYDD** rhan amser: Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd. Mae angen person brwdfrydig i gynorthwyo'r athrawes; cymwysterau'n ddymunol ond nid yn angenrheidiol. Ffoniwch 693688.

**TY** yn ardal Glanyrafon, Caerdydd, i'w osod - 4 stafell wely o ddiwedd mis Gorffennaf - ffoniwch Charles am fanylion - (01286) 870743.